Cenn@d

MAWRTH 27 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 161

Oes Awen i'r Aileni?
"Mae'r Pasg yn cychwyn ar fore'r Nadolig."

"Mae'r Pasg yn cychwyn ar fore'r Nadolig." Mi alla' i glywed fel taswn yno rŵan lais Mrs Wynne, fy athrawes gynradd, yn deud y geiriau yma wrth ddosbarth ohonom oedd yn cael wy siocled bach yn anrheg ganddi cyn gadael am adre ar drothwy gwyliau'r Pasg. Mae'n rhaid bod y geiriau wedi cydio ym mlas y siocled, rywsut!

Yna, a minnau'n hogyn hŷn, daeth eu hystyr hefyd yn amlwg imi. Myfyrio oeddwn i yn ystod gwasanaeth carolau'r pentref yn yr eglwys, lle'r oedd Mrs Wynne wrth yr organ. Wrth ganu carol Ficer Rhys Prichard: 'Awn i Fethlem, bawb dan ganu', dyma ddod at y pennill olaf:

> Awn i Fethlem i gael gweled
> Y rhyfeddod mwya' wnaethped,
> Gwneuthur Duw yn ddyn naturiol
> I gael marw dros ei bobol.

Daeth ei geiriau yn wên i'r cof o rywle: "Mae'r Pasg yn cychwyn ar fore'r Nadolig"!

Wna i byth anghofio'r eiliad ddadlennol honno. Dros y blynyddoedd, dw i wedi mynd yn ôl at y ddau ddigwyddiad bach annwyl, cysylltiedig, a geiriau Mrs Wynne, gan ddiolch iddi am eu plannu yn fy nghalon. Ac wrth fyfyrio drostyn nhw, bydda i'n meddwl i ba raddau, mewn gwirionedd, mae ein cymdeithas fodern bellach yn cysylltu'r Nadolig a'r Pasg yn reddfol ac ystyrlon, fel y dylid.

Hefyd, ai llawenydd plentyndod wrth gael ein hudo gan ddyfodiad Siôn Corn ac anrhegion di-ri ydy'r rheswm ein bod yn tueddu i glosio at Ŵyl y Geni gymaint mwy na Gŵyl yr Atgyfodiad – Gŵyl yr Aileni? Oni ddylem fel cymdeithas, yn rhesymegol, fod yn mynegi'r un llawenydd agored, os nad mwy, fod yr Iesu wedi marw drosom i'n hachub, ac wedi atgyfodi? Ai dylanwad y byd seciwlar, masnachol, sydd i'w gyfrif am hyn? Neu ai teneuad ein hadnabyddiaeth o'r Gair neu ein diffyg brwdfrydedd yn cyfleu newyddion da yr Atgyfodiad ydy tarddiad y gwahaniaeth? Cymysgedd o'r dylanwadau hyn, falle?

Tonfedd ddibynadwy ym mhob oes i ddehongli tuedd ein cymdeithas ydy'r diddordeb yng ngweithiau'r beirdd. Mae'r gwahaniaeth pwyslais rhwng Nadolig a Phasg i'w weld yn amlwg o'r casgliadau a gyhoeddwyd yn y cyfnod diweddar. Cyhoeddwyd pedwar casgliad o gerddi'r Nadolig: *Nadolig y Beirdd* (1988), *Angel a Thinsel* (1996), *Llyfr Bach Nadolig* (2020) a *Nadolig* (2022).

Ond ni chafwyd yr un casgliad tebyg o gerddi am gyfnod y Pasg a'r Sulgwyn. Ni fu digon o alw, mae'n ymddangos, am gyhoeddi casgliad thematig ohonyn nhw, er bod digon o ddeunydd cyfrol o'r fath i'w gael. Onid ydy hyn yn ddrych o'r bwlch sydd wedi datblygu rhwng apêl ac arwyddocâd y ddwy ŵyl i ninnau?

Ond arhoswch! Wedi meddwl, oes, mae gennym gasgliadau o gerddi sy'n pontio'r Nadolig a'r Pasg – yn cyd-ddathlu'r Geni a'r Aileni yr un mor llawen yn yr un gerdd – a hefyd yn cysylltu ac yn pontio canrifoedd ein ffydd. Wrth inni ailgydio yn yr hen garolau ar gyfer y Nadolig, cydiwn nid yn unig yng ngobaith geni'r Iesu ond hefyd yng ngobaith ei Atgyfodiad. Mae'r carolau plygain yn llawn o lawenydd agored achubiaeth y Groes a'r Aileni hefyd, fel y garol gan Ficer Rhys Prichard, ac 'Agorwyd Priffordd Rydd' (John Roberts, Pen-ffordd-wen), er enghraifft, sy'n cychwyn efo'r dathliad: 'Agorwyd priffordd rydd i dir llawenydd llon', ac yn gorffen:

> Gogoniant, moliant mawr
> yn awr i'r Tri yn un
> sy'n llywio nef a llawr
> am ddirfawr ras i ddyn;
> a'r ffordd drwy'r llen
> i'r nefoedd wen;
> i'w groes a'i glwy'
> rhoed miloedd mwy
> eu mawl. Amen.

Fis Ionawr eleni, pan oedd wyau Pasg eisoes yn ymddangos ar gownteri'r siopau 'pob peth', yr un pryd â *sales* addurniadau a phetheuach y Nadolig – a minnau'n dal i ganu'r carolau mewn ambell blygain – tybiais am eiliad fod penaethiaid yr archfarchnadoedd hwythau, rywsut, wedi eu goleuo gan wirionedd cyfoethog geiriau Mrs Wynne: "Mae'r Pasg yn cychwyn ar fore'r Nadolig."

Rhys Dafis

Tudalen y plant
Tudalen 4

Merched Cristnogol yng Nghanolbarth Asia
Tudalen 5

Ffydd a Diwylliant
Tudalen 7

GWEDDI AR GYFER Y PASG 2024

Oddi wrth Cynnal, y Gwasanaeth Cwnsela ar gyfer Clerigion, Gweinidogion yr Efengyl, Gweithwyr Cristnogol, a'u Teuluoedd.

Arglwydd yr holl fyd a Duw pob daioni,
plygwn ger dy fron gan ymbil am arweiniad
wrth i ni glosio at y Pasg eleni.
Ti yw ffynhonnell cariad a thrugaredd,
ac yr ydym yn ymwybodol o drasiedi'r ddynoliaeth.

Gweddïwn dros lywodraethau'r byd y Pasg hwn,
wrth i ni gofio bod ystyriaethau gwleidyddol wedi chwarae eu rhan
yng ngweithredoedd y swyddogion Iddewig ac angen Peilat
a'r Ymerodraeth Rufeinig i gadw trefn â dwrn haearn.

Yr ydym yn dystion i'r rhyfeloedd erchyll yn yr Wcráin a Gaza yn benodol,
ond gwyddom bod dinasyddion sawl gwlad
yn crynu mewn ofn oherwydd fod tensiynau rhyfel yn eu plith.
Dduw Shalom, arwain ni eto tuag at heddwch.

Cofiwn am Iesu fel un a welodd gri yr anghenus yn y byd,
yr unig a'r llesg, y cloff a'r digartref, y cleifion a'r truenus.
Heddiw, gweddïwn hefyd dros y sawl sy'n gaeth i sylweddau
ac arferion dinistriol o bob math.
Boed iddynt estyn atat a phrofi grym dy gariad
a'r gobaith o fywyd newydd sydd yn Iesu.

Gweddïwn dros bobloedd y byd,
y rhai nad ydynt yn gwybod am wyrth y Pasg –
am wawr Iesu'r atgyfodiad
am drugaredd ei gyffyrddiad
a'r bywyd newydd ddaw o dderbyn ei fendith.
Ti, Ysbryd sy'n argyhoeddi, clyw ein gweddi dros genhadaeth yr Eglwys.
Arglwydd, trugarha wrthym fel unigolion,
cynorthwya ni i ddyfnhau ein ffydd a bod yn fwy taer yn ein tystiolaeth drosot.
Amen.

cynnal

AM FWY O FANYLION CYSYLLTWCH Â: wynfordellisowen@adferiad.org | Rhif ffôn: 07796464045
www.adferiad.org/services/cynnal

Teilwng yw'r Oen

Un o'r darnau cerddorol mwyaf adnabyddus ydi'r *Meseia* gan Handel. Ers ei berfformio gyntaf yn Nulyn ym 1742, enillodd y gwaith ei le yng nghalonnau cenedlaethau o bobl ledled y byd ac yn arbennig yma yng Nghymru, lle cafodd ei berfformio yn gyson. Yma, rydym hefyd yn gyfarwydd â fersiwn modern yn dwyn y teitl *Teilwng yw'r Oen*. Mae llawer iawn o dystiolaeth fod yr Arglwydd Iesu wedi bod yn fodd i ysbrydoli pob math o gelfyddyd, yn gerddoriaeth, darluniau, llenyddiaeth a barddoniaeth.

Bu dylanwad marwolaeth ac atgyfodiad Iesu yn fawr hefyd ar fywydau unigolion a theuluoedd, a thrwy hynny ar fywyd cymunedau a gwledydd. Yn ein gwlad ni bu'r Iesu yn destun siarad, myfyrdod a mawl a phobl yn canu 'Teilwng yw yr Oen ga'dd ei ladd, / yr un a'n prynodd i Dduw trwy ei waed, / i dderbyn gallu a chyfoeth, doethineb a nerth'.

Ond pam bellach y tawelodd y gân ac y peidiodd llawer â chael eu hysbrydoli ganddo? Efallai ei fod a wnelo ffaith nad ydym bellach yn aros i ystyried o ddifri pwy yw Iesu a beth a gyflawnodd. Gwn am lawer wnaeth eu meddwl i fyny am Iesu ar brofiad amser maith yn ôl yn yr ysgol Sul pan oedden nhw'n blant. Onid ffolineb ydi gwneud penderfyniad am rywbeth mor bwysig ar brofiad plentyndod? Daeth eraill i benderfyniad ar sail rhagfarnau a grëwyd wrth i bethau gael eu dweud a'u gwneud yn enw Iesu gan bobl amherffaith.

Gofalwn wneud amser y Pasg hwn i ystyried Iesu. Galwad sydd gen i ar i bob un ohonom edrych eto ar Iesu. Agorwn ein Beiblau o'r newydd i fyfyrio arno. Ymunwn mewn addoliad a myfyrdod gyda'n gilydd ac ar ein haelwydydd. O wneud hynny, gwn y cawn ein hysbrydoli ganddo. Cofiwn eiriau a neges yr Arglwydd, 'Hedd yn awr i'm pobl, medd eich Duw'. Pwy fyddai'n gwadu bod angen hedd ar y byd ac yn ein calonnau ninnau? Daw'r hedd wrth i ni gredu yn Iesu Grist a'i gofleidio yn Arglwydd a Gwaredwr ein bywyd. Mae pobl ar hyd y canrifoedd wedi profi ei hedd a'i nerth ac wedi eu hysbrydoli ganddo. Profwn hedd ei gwmni a'i rannu gyda'n gilydd ac eraill.

R. O. Roberts
Nefyn

(Cyhoeddwyd gyntaf yn Llais Bro Aled)

Cynrychiolydd y Cenhedloedd Unedig yn rhoi Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2024

Bydd Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2024 yn cael ei chynnal yn y Morlan nos Fawrth, 9 Ebrill, am 5.30 o'r gloch. Y darlithydd eleni fydd yr Athro Virginia Gamba, Cynrychiolydd Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Blant a Gwrthdaro Arfog – ac mae'n fraint fawr i ni gael ei chroesawu atom i'r Morlan.

Ganed Virginia Gamba yn Buenos Aires. Aeth i Brifysgol Newcastle upon Tyne i astudio am radd mewn Astudiaethau America Ladin a Sbaeneg, cyn dod i Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth i wneud cwrs Meistr mewn Astudiaethau Strategol. Ers hynny, cafodd ei gwneud yn Gymrawd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae wedi cael gyrfa hir ac amrywiol ym maes heddwch a diogelwch a materion diarfogi, a hynny yn Llundain, Affrica, Chicago a'r Ariannin.

Teitl y ddarlith hon fydd **Building Connections for the Common Good: Dialogue and Trust in the Pursuit of Peace**, ac ynddi fe fydd Ms Gamba yn trafod ychydig o'r heriau sydd yn rhan o drafodaethau ar bob lefel, o'r byd-eang i'r dydd-i-ddydd. Dywed fod yn "rhaid bod yn barod i wrando heb ragfarn a pheidio addo heb y sicrwydd o allu cyflawni. Rhaid sicrhau'r gofod a'r lle i allu adeiladu heddwch".

Darlith Saesneg fydd hon eleni, yn cael ei chadeirio gan yr Athro Mererid Hopwood.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar 01970 612806 neu post@jamespantyfedwen.cymru.

DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2024

Building Connections for the Common Good: Dialogue and Trust in the Pursuit of Peace

Darlith gan **Yr Athro Virginia Gamba,**
Cynrychiolydd Arbennig Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig dros Blant a Gwrthdaro Arfog

Cadeirydd: **Yr Athro Mererid Hopwood**

Nos Fawrth, 9fed o Ebrill, 2024
5.30 o'r gloch

yng Nghanolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

CROESO I BAWB!

Manylion pellach: Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen Foundation

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Mae Iesu'n fyw!

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther



Roedd Iesu wedi dod yn ôl o farw'n fyw, yn union fel yr oedd wedi dweud wrth ei ffrindiau y byddai'n gwneud, ond doedden nhw ddim wedi deall hyn. Yn Efengyl Ioan yn y Beibl cawn wybod beth ddigwyddodd.

Pan aeth Mair at fedd Iesu, tridiau wedi iddo farw, gwelodd ei fod yn wag. Aeth ar ei hunion i ddweud wrth Pedr ac Ioan.

Roedd yn rhaid i Pedr ac Ioan gael gweld drostyn nhw eu hunain. Rhedodd y ddau i mewn i'r bedd. Gwelsant fod y dillad ar gyfer claddu'n wag. Roedd yn wir. Doedd Iesu ddim yno!

Eisteddodd Mair y tu allan i'r bedd yn crio. "Pam wyt ti'n crio?" gofynnodd dau angel iddi. "Maen nhw wedi cymryd Iesu ymaith," wylodd, "a dydw i ddim yn gwybodi i ble maen nhw wedi mynd â fo."



Meddai rhywun, "Mair, pam wyt ti'n crio?" Roedd Mair yn meddwl mai'r garddwr oedd yno. "I ble'r wyt ti wedi mynd â Iesu?" gofynnodd. Galwodd y dyn ei henw, "Mair."

Roedd yn swnio fel llais Iesu'n ei galw. Sychodd ei llygaid ac edrychodd i fyny. Yn wir, Iesu oedd yn siarad â hi. Roedd Iesu'n fyw!



Roedd Mair wrth ei bodd! Roedd Iesu wedi marw ond nawr roedd yn fyw! Dywedodd Iesu wrthi am fynd i chwilio am ei ffrindiau a dweud y newyddion da wrthyn nhw!

Rhedodd Mair â'i gwynt yn ei dwrn, i chwilio am ffrindiau Iesu! "Mae'n fyw!" gwaeddodd. Ar adeg y Pasg rydyn ni'n cofio fod Iesu'n fyw!

Merched Cristnogol yng Nghanolbarth Asia

Ar 8 Mawrth cynhaliwyd Diwrnod Rhyngwladol y Merched ledled y byd. Yng Nghanolbarth Asia mae'n cael ei ddathlu'n eang ac mae'n arferol i bobl roi anrhegion i'r menywod yn eu bywydau – mamau a chyd-weithwyr benywaidd.

Ond mae merched Cristnogol Canolbarth Asia yn aml yn peryglu eu bywydau, eu rhyddid a'u cysur wrth ddilyn Iesu. I lawer o fenywod sy'n dod yn gredinwyr, mae yna gost gorfforol, emosiynol a seicolegol, a goblygiadau ariannol. Pwrpas y math hwn o frawychu yw rhoi pwysau ar fenywod i gefnu ar eu ffydd.

Mae Open Doors yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghanolbarth Asia i ddarparu hyfforddiant, cwnsela ar gyfer trawma, hyfforddiant galwedigaethol a chymorth ymarferol arall i fenywod. Mae'n achubiaeth i lawer.

Daeth Guliya* i wybod am Dduw trwy grŵp bach pan oedd hi'n 16 oed. Roedd hi'n synnu gweld pobl nad oedden nhw'n perthyn yn trin ei gilydd â chymaint o gariad a pharch. Roedd eu clywed yn siarad am gariad Iesu yn brofiad dirdynnol iddi. Felly penderfynodd roi ei bywyd i ddilyn Iesu Grist.

A hithau'n hanu o deulu Mwslimaidd, roedd ei rhieni yn anghytuno â'i thröedigaeth. Roedd ei thad, yn enwedig, wedi gwylltio, ac fe drawodd yntau hi oherwydd ei bod wedi gwadu ei ffydd. Fe wnaethon nhw ei gwahardd rhag siarad neu ymwneud ag unrhyw grediniwr, ond gwrthododd gefnu ar ei ffydd newydd.

"Fe wnaethon nhw fy rhoi dan glo yn y tŷ a wnaethon nhw ddim hyd yn oed adael i mi fynd i'r ysgol. Cymerodd Dad fy Meibl a'm ffôn, a doeddwn i ddim yn gallu siarad â neb," meddai Guliya. Ychydig yn ddiweddarach, caniatawyd iddi fynd i'r ysgol, ond dim ond yng nghwmni ei rhieni neu ei brawd. Roedden nhw yno i wneud yn siŵr nad oedd hi'n ymwneud ag unrhyw Gristnogion nac yn cael unrhyw gyfle i ymgynnull gyda nhw. Flwyddyn yn ddiweddarach, priododd ei rhieni hi â dyn Mwslimaidd yn erbyn ei hewyllys, gan obeithio y byddai hyn yn rhoi diwedd ar ei ffydd newydd. Mae Guliya yn arbennig o agored i'r mathau o erledigaeth y mae'n ei hwynebu, oherwydd ei rhyw.

"Waeth beth rydw i'n mynd drwyddo, dwi'n gwybod y bydd hi'n waeth heb Iesu. Sut gallaf ei wadu pan fyddaf yn gwybod ei fod yn fyw a bob amser wrth fy ochr?" meddai Guliya. Dywedodd wrth ei gŵr Mwslimaidd am ei ffydd, ac nid yw yn ei herbyn, ond ni chaniateir iddi fynd i unrhyw gynulliadau na siarad â chredinwyr eraill. "Mae'n fy ypsetio i, ond dwi'n credu y bydd fy ngŵr a'm rhieni yn adnabod Iesu ac yn cael eu hachub. Dwi'n gweddïo drostyn nhw," meddai Guliya.

* Newidiwyd yr enw am resymau diogelwch

Ailgloriannu Doethur y Pulpud: Dr Martyn Lloyd-Jones

Roedd hi'n anorfod y byddai ysgolheigion yn mynd ati i ailgloriannu bywyd a gwaith y Cymro Cymraeg a grymus gennad y Gair, y Parchedig Ddr Dr Martyn Lloyd-Jones. A dyna a wnaed mewn cyfrol sy'n wledd i'r darllenydd, sef *Engaging with Martyn Lloyd-Jones: The Life and Legacy of the Doctor*, a olygwyd gan Andrew Atherstone a David Ceri Jones (Inter-Varsity Press, 2011). Ymhlith yr ysgolheigion a ymgymerodd â'r dasg yr oedd dau Gymro, sef David Ceri Jones o Brifysgol Aberystwyth a Dr Robert Pope o Brifysgol Caergrawnt, yn ogystal â Dr William K. Kay o Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam.

Go brin fod neb o'r dwsin ysgolheigion hyn yn cofio'r Doctor yn ei ogoniant fel efengylydd Calfinaidd. Meddylier amdano yn Lerpwl yn 1934 yn llenwi Capel Cymraeg y Methodistiaid Calfinaidd yn Chatham Street am dair noson yn olynol ym mis Mawrth, debygwn i. Am dair noson bu dros 1,500 o bobl ieuainc, yn bennaf, yn gwrando arno. Sylwch – pobl ieuainc. Onid yw'r dyddiau hyn, sef 2024, mor wahanol

Chwe blynedd cyn hynny medrai'r Parchedig R. G. Williams, Dafen, ger Llanelli, ddweud amdano ei fod yn 'ŵr ar dân'. Ychwanega: 'Pregetha'r Efengyl yn ddigyfaddawd, ac yn rhedeg drwy'r cyfan y mae rhyw resymoldeb iach a sanctaidd.'

Dr David Ceri Jones sydd â'r dasg, yn yr ail bennod, o gloriannu cyfraniad Lloyd-Jones â Chymru (tt. 59–90). Mae'n bennod werthfawr sy'n tanlinellu fod y meddyg a drodd yn bregethwr yn Gymro twymgalon. Mae'r adran amdano yng nghapel y Symudiad Ymosodol yn Aberafan yn tanlinellu gwyrthiau gras a ddigwyddodd o fewn y gymuned Fethodistaidd Galfinaidd yng Ngorllewin Morgannwg. Achubwyd o'r byd yn 1930 y nifer anhygoel o 84 o aelodau newydd. Pam nad yw hyn yn digwydd o hyd? Y flwyddyn ddilynol daeth 135 o aelodau newydd. Pam? Darllenwch D. M. Lloyd-Jones, *Evangelistic Sermons at Aberavon*



(Caeredin, 1983), a chyfrol priod y Doctor, Bethan Lloyd-Jones, *Memories of Sandfields* (Caeredin, 1983) er mwyn cael rhan o'r ateb, ond nid yr ateb cyflawn chwaith.

Ceir golwg fanwl ar gyfraniad y Doctor i greu mudiad efengylaidd yng Nghymru (tt. 72–85) a'r cydweithio â myfyrwyr y colegau, ac yn gapten arnynt – J. Elwyn Davies. Tanlinella D. Ceri Jones bwysigrwydd J. Elwyn Davies a da gwneud hynny. Ond dylai hefyd fod wedi rhoi sylw i hanner dwsin o rai eraill oedd yr un mor arwyddocaol yn hanes y dystiolaeth efengylaidd. Yn bersonol, byddwn wedi rhoi sylw i'r Parchedig T. Arthur Pritchard fel meddyliwr a fu'n agor y Gair fel Dr Martyn ei hun. Gwna Alwyn Pritchard gymwynas â ni yn ei air o brofiad, 'Dyma be dw i'n gredu' wrth dynnu sylw at T. Arthur Pritchard (Morfa Nefyn yr adeg honno) yn agor y dwyfol Air bob nos Sadwrn yn y pumdegau yn festri Capel Salem, Pwllheli. Dyma'i eiriau: 'Roedd Arthur ar dân dros yr Efengyl, a chofiaf ef yn un o'r seiadau yn esbonio'r bennod fawr yn Epistol Paul at y Rhufeiniaid, sef pennod 5.' (*Llanw Llŷn*, Rhif 392, Tachwedd 2011), t. 20.

Mae'n amlwg fod David Ceri Jones yn fwy cydnabyddus â'r ochr Saesneg i'r Mudiad Efengylaidd na'r ochr Gymraeg, neu mi fyddai Mari Jones, Llanymawddwy; Dr R. Geraint Gruffydd, Dr Bobi Jones, y Parchedigion Emyr Roberts, Vernon Higham, Gareth Davies Eifion Evans wedi britho'r tudalennau. Ond mae'r gyfrol yn gampus am ddangos rhychwant diddordebau diwinyddol a chrefyddol Dr Martyn Lloyd-Jones. Dengys Ian M. Randall ei ddiddordeb mawr o gael nodyn diwygiadol yn ei bregethau, ei anerchiadau a'i weddïau, tra cawn gan Andrew Atherstone, David Ceri Jones a William K. Kay bennod, 'Lloyd-Jones and the charismatic controversy'. Nid oedd ganddo feddwl mawr o'r dystiolaeth garismatig mwy na chenadaethau Billy Graham. Eto, nid oedd yn barod i anghofio fod yr elfen Bentecostaidd yn niwygiad Daniel Rowland a Howell Harris, dau o'i arwyr mawr.

Ben Baillie sy'n gyfrifol am bennod hynod afaelgar, 'Lloyd-Jones and the demise of preaching'. Rhoddwyd coflaid i Dr Robert Pope i drafod Lloyd-Jones a ffwndamentaliaeth, a chafwyd pennod a fydd yn gymorth amhrisiadwy. Dedfryd Dr Pope yw nad oedd gweinidog Capel Westminster, Llundain, yn ffwndamentalydd o gwbl. Mwynheais ysgrif John Coffey o Brifysgol Caerlŷr ar ei ddiddordeb yn hanes Protestaniaeth ac yn arbennig y cyfrolau a ddarllenai o waith y Piwritaniaid. Bu'n gyfrifol am gefnogi gwasg Banner of Truth Trust a fu'n cyhoeddi ar raddfa eang gynnyrch y Piwritaniaid, ac un o swyddogion y wasg, Ian H. Murray, yw bywgraffydd y Dr Martyn. Gofalodd ef ac ŵyr y Dr fod ei bregethau yn cael eu cyhoeddi, ac yn wir cyhoeddwyd mwy o waith Dr Lloyd-Jones oddi ar ei farwolaeth yn 1981 na chyn hynny.

Pedair pennod y dylwn eu crybwyll hefyd yw 'Lloyd-Jones and ministerial education' gan Philip H Eveson; 'Lloyd-Jones and Karl Barth' gan Robert

(parhad ar y dudalen nesaf)

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul y Pasg, 31 Mawrth am 8yh
Ymunwch â Nia Roberts a Rhodri Gomer wrth i ni ddathlu gŵyl fawr y ffydd Gristnogol, y Pasg. Cawn fwynhau gwledd o ganu mawl o Gapel Glynarthen, Ceredigion, a pherfformiadau cerddorol disglair o Eglwys y Santes Fair, Aberteifi.

BBC radio cymru

Oedfa'r Groglith am 12.30yp
Oedfa dan arweiniad y Parch. Anna Jane Evans, Caernarfon

Caniadaeth y Cysegr
Sul y Pasg, 31 Mawrth, am 7:30yb a 16:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parch. Manon Ceridwen James

Oedfa Radio Cymru
Sul y Pasg, 31 Mawrth, am 12yp
Oedfa dan ofal y Parch. Geraint Tudur, Bangor

Sul y Pasg, 31 Mawrth, am 15.00yp
Y Ferch a'r Pasg: dehongliadau traddodiadol a chyfoes o'r ferch yn stori'r Pasg

Ailgloriannu Doethur y Pulpud: Dr Martyn Lloyd-Jones
(parhad o dudalen 6)

Strivens, 'Lloyd-Jones and Roman Catholicism' gan John Maiden a 'Lloyd Jones and the Angican succession crises' gan Andrew Atherstone.

Beth a ddywed yr ysgolheigion hyn amdano? Naw gwirionedd, ddwedwn i:

i) Ei fod yn gorseddu pregethu fel y gwnaeth Thomas Charles o'r Bala uwchlaw popeth arall. Ond erbyn heddiw cydnabyddwn fod gweddi mor bwysig â phregethu, ac yn sicr Sacrament Swper yr Arglwydd.
ii) Nid ar ddiwinyddiaeth John Calfin yr oedd ei Galfiniaeth wedi ei sylfaenu ond ar Galfiniaeth y Piwritaniaid, fel y mae diwinyddiaeth llawer o efengylwyr Cymraeg yr hanner can mlynedd diwethaf.
iii) Y ddeunawfed ganrif oedd yn bwysig iddo, ac nid y bedwaredd ganrif ar bymtheg na'r ugeinfed ganrif.
iv) Ni allai oddef yr Anglicaniaid Saesneg fel sefydliad, er bod ganddo yn ei gapel yn Llundain lu o ddisgyblion a fagwyd yn yr eglwys honno.
v) Dyn ei gyfnod oedd yn ei berthynas â'r Pabyddion er ei fod yn darllen clasuron y Catholigion yn gyson. Newidiodd yr Anghydffurfwyr Cymraeg eu hagwedd ar ôl i Saunders Lewis ddod yn aelod o'r Eglwys Babyddol yn 1932. Ond cymerodd 30 mlynedd i hynny ddigwydd.
vi) Cymro ydoedd o ran argyhoeddiad. Ymfalchïai yn ei wreiddiau yn Llangeitho a Chastellnewydd Emlyn. A phan fu farw, daethpwyd ag ef yn ôl i ddaear Dyffryn Teifi i blith 'cwmwl tystion' Capel Bethel a theulu Evan Phillips.
vii) Coleddai unigolyddiaeth yn ei agwedd eglwysig Galfinaidd.
viii) Cyd-weithiwr sâl ar y naw ydoedd. Ni ellid ei ddychmygu'n cydweithio â Dr Donald Soper na Dr Leslie Weatherhead, dau o'i gyd-oeswyr rhydddfrydol a sosialaidd.
ix) Bu'n ddylanwadol, a deil felly ym myd y safbwynt Efengylaidd yng Nghymru a thrwy'r byd.

Yn ddi-os, yr oedd yn un o'r cewri y medrwn ymfalchïo yn ei gyfraniad. Dyna'n fras bellach y casgliad yn ein dyddiau adwythig ni.

D. Ben Rees

Ffydd a Diwylliant

Onid oes gynnon ni berthynas ryfedd gyda geiriau?

Maen nhw'n gallu bod yn eiriau unigol, syml, yn dweud calon y gwir. Ac yn gallu bod yn gwmwl anferth, dwys, yn cuddio a mygu'r galon honno.

Atgoffwyd fi o hyn wrth wrando ar sgwrs (ddifyr dros ben) rhwng Dei Tomos a Jason Walford Davies am Waldo Williams. Dyma enghraifft – eithafol – o'r ffenomenon dwi'n ei chrybwyll uchod. Bardd ysgrifennodd gyfrol neu ddwy o berlau gwerthfawr ond sydd wedi creu diwydiant anferth o eiriau o'i gwmpas.

Siawns nad ydy hyn yn deyrnged i'r bardd a'r ysgolheigion fod cyn lleied o eiriau wedi creu cymaint o waith meddwl. Ond siawns, hefyd, nad oes yna ddeuoliaeth rhwng yr holl eiriau ac amser sy'n cael eu treulio'n eu trafod, a'r amser sy'n cael ei dreulio'n myfyrio dros y gwreiddiol.

Tua'r un pryd â'r cyfweliad uchod ges i'r pleser o wrando ar Peter Thomas, Aberystwyth, yn pregethu mewn cyfarfod Gŵyl Ddewi ac yn dwyn i gof rai o'r geiriau oedd wedi cael eu dweud yn ei gwrdd sefydlu yn Rhydlewis, rai degawdau yn ôl. Prawf fod geiriau doeth ac amserol yn gallu talu am eu lle.

Ond eto, dychmygwch y biliynau o eiriau sy'n cael eu rhannu'n flynyddol wrth drafod y Gair.

O gymryd yr ymadrodd – y Gair – yn llythrennol am eiliad, be fydden ni'n ei ddewis fel un gair fyddai'n crynhoi'r gweddill yn ein Beibl? 'Gras', 'maddeuant', efallai. Ond, 'cariad', debycaf. Hwnnw yn ei dro yn crynhoi'r geiriau pwysicaf eraill i gyd. Wedi'r cyfan, 'Duw cariad yw.' Ond fe fydd miliynau o



eiriau wedi eu treulio (eu gwastraffu?) yn trafod y geiryn hwnnw, a pheryg ein bod ni wedi treulio llawer mwy o amser a geiriau yn siarad a thrafod a sgwennu am gariad nac yn gweithredu'n gariadlon.

Ond eto, mae trafod yn gwbl angenrheidiol. I'r Iddewon mae dehongli parhaus yn bwysig, amwysedd sy'n allweddol; maen nhw'n dehongli ac yn gwneud nodiadau tra ydyn ni'n tanlinellu a diffinio. Ac onid yr Iddewon sy'n iawn? Wrth drafod, mae dehongliadau newydd o'r Gair, o'r geiriau hyn, yn dod i'r amlwg.

Ond mae'r ddau draddodiad wedi creu cwmwl dwys o gwmpas calon y gwir.

Os yw trafod yn angenrheidiol i symud ymlaen, onid oes peryg ei fod o'n ein clymu ni yn ein hunfan yn ogystal? Wedi'r cwbl, 'wrth eu gweithredoedd yr adnabyddwch hwynt', 'edrychwch (nid gwrandewch na darllenwch) sut mae'r rhain yn caru ei gilydd'.

Yn Gymraeg mae'r gair 'pregethu' wedi cymryd arno ystyr arall y tu hwnt i gyflwyno pregeth: 'dyma fo'n pregethu eto', yn bwrw iddi i gyflwyno barn yn ddigymell, yn ddigroeso ac yn aml yn ddiddiwedd.

Nid mater o'r naill na'r llall ydy hi, wrth gwrs, ond efallai fod angen cofio nad yw gormod o ddim yn dda. Mae geiriau'n bwysig eithriadol i mi, ond efallai nad ydw i'n rhoi digon o gyfle i mi fy hun chwilio a mwynhau'r mannau tawel, y mannau tenau hynny lle mae'r bydol a'r ysbrydol yn cwrdd â'i gilydd yn ddieiriau. Efallai ei bod hi'n amser chwilio am dawelwch!

Rocet Arwel Jones

Rydym I gyd yn werthfawrogol o gysondeb, sylwedd a'r rhwyddineb dweud a fu'n nodwedd o gyfraniadau Arwel Jones dan bennawd 'Ffydd a Diwylliant' dros y degawd diwethaf. Fe fu'n ufudd i gais Pryderi Llwyd Jones, golygydd *Y Goleuad* ar y pryd. Wrth ddarllen ei gyfraniad y tro hwn, daw'r adnod hon i'r meddwl: "Y mae geiriau teg fel diliau mêl, yn felys i'r blas ac yn iechyd i'r corff." (Diarhebion 16:24, BCND)

Diolch iddo am ei gamp wâr yn cywain geiriau ynghyd fel hyn bob mis yn felys ac yn fuddiol inni dros y 120 o gyfraniadau cyson a gaed. Ein diolch diffuant iddo. (Gol.)

Oedfa Basg *Cenn@d*
Nonsens y Newyddion Da!

Darlleniadau: Luc 24:1–12 ac 1 Corinthiaid 1:18–31

'Mae'r neges am y groes yn nonsens llwyr i'r bobl hynny sydd ar y ffordd i ddistryw. Ond i ni sy'n cael ein hachub, dyma'n union lle mae grym Duw i'w weld' (1 Corinthiaid 1.18; Beibl.net)

'Roedd yr apostolion yn meddwl bod stori'r gwragedd yn nonsens llwyr a doeddent ddim yn eu credu nhw!' (Luc 24.11; Beibl.net)

Roedd y syrcas yn y dref. Ni allwn oddef clown pan oeddwn i'n blentyn ac nid wyf yn frwd iawn nawr. Maent i fod yn ddoniol ac mae pawb yn chwerthin. Ond roeddwn i'n eu hofni! Yn ofnus oherwydd efallai y byddwn yn cael fy nwyn i mewn i'w chwarae nhw, ofn oherwydd y gallai rhywbeth ddigwydd i mi!

Maent yn gwneud pethau ffôl er mwyn rhoi hapusrwydd a llawenydd i bobl eraill. Ond yng nghefn ein meddyliau (yn sicr yng nghefn fy meddwl i) mae delwedd y clown yn ei garafán yn rhywle'n bell oddi cartref, mewn dagrau oherwydd tristwch ac anobaith ei fywyd.

Mae dwy adnod yn y Beibl a all arwain ein meddwl heddiw. Mae'r adnod gyntaf yn ein tywys ni i'r groes: 'Mae'r neges am y groes yn nonsens llwyr i'r bobl hynny sydd ar y ffordd i ddistryw.' Mae'r groes, sef calon a sylfaen llawer o'r hyn yr ydym ni'n ei gredu am Iesu ac am gariad Duw yn Iesu, yn nonsens llwyr; nid yw'n gwneud synnwyr, mae'n ffolineb.

> Ar groes mae'r Un wrthodwyd
> fel bwgan brain o ddyn,
> yn nonsens yn y gwacter
> i bawb mewn rhuthr blin.

Yma, mae methiant, gwrthod, anobaith, breuder. Dyma Iesu'n cael ei wthio i'r ymylon. Mae'n ymddangos i bob llygad arferol fel nonsens i honni mai neges o obaith, o iachawdwriaeth yw hon. Ar y gorau, mae'n ymddangos ei bod yn codi cwestiynau difrifol iawn am neges yr Efengyl Gristnogol:

> Sut all rhyw glown o dristwch
> gyhoeddi gair o nerth,
> a ffydd a serch yn rhithiau
> a gobaith yn ddiwerth?

Rhaid i'r ateb i gwestiwn o'r fath fod yn 'Na!' Does bosib! Ni all y fath 'glown o dristwch', ni all y gŵr a wrthodwyd – y bwgan brain sy'n hongian yn uchel ymhlith erchyllterau byd creulon a threisgar (lle mae gobaith yn ddrychiolaeth a gobaith yn absŵrd) – ni all hwn ddod â gair nerthol, defnyddiol!

Ac eto, ac eto! Yn y person bregus hwn, yn yr un gwrthodedig hwn, ac yn ein methiant a'n tywyllwch ni, cawn yr olwg ddyfnaf a mwyaf pwerus ar bŵer ac ystyr a gobaith cariad:

> Gall bywyd, gwag o ystyr,
> trwy flinder trallod hir,
> weled, trwy Grist fy Arglwydd,
> lawenydd ym mhob cur.

Mae cariad, cariad hunan-aberthol yn y pen draw gyda ni yn y gwacter a'r anobaith y mae cymaint yn ein byd yn eu teimlo yn nyfnder eu bod:

> A'r cariad ddaeth o'i wirfodd
> i bwll anobaith du
> all enwi'r nos ddisynnwyr
> a dioddef gyda ni.

Beth bynnag yw croes Crist, dyna'r lle y mae cariad yn dod i mewn i'r dyfnder yn y pen draw 'ac yn dioddef gyda ni yno'. Yma, i ni ac ar gyfer y byd, y ffolineb hwn, y 'clown' hwn o dristwch, yw pŵer cariad Duw yn dal ar waith yn y byd.

Ond mae mwy i'w ddweud a mwy o 'nonsens' i'w ystyried: 'Roedd yr apostolion yn meddwl fod y stori yn nonsens llwyr a doeddent ddim yn eu credu nhw!'

Dyma enghraifft arall o nonsens. Y pryd hwnnw, fel nawr, roedd hi'n anodd credu bod pobl yn 'codi o feirw'. Nid yw'n gwneud synnwyr. Mae'n ffolineb. Hyd yn oed ymhlith y rhai a fu'n cadw cwmni i Iesu (sylwch eu bod yn cael eu galw yma yn 'apostolion' ac nid yn unig 'y disgyblion'), ni ddylai arwyddocâd y teitl hwn gael ei golli gennym ni, hyd yn oed os nad oeddent yn credu neges y merched. Annibynadwy! Nonsens!

Ac, wrth gwrs, mae'n afresymol, yn groes i'n holl ddisgwyliadau. Nid yw'r math hwn o beth yn digwydd! Ond y disgyblion hyn y mae Iesu yn eu cwrdd ar ôl yr atgyfodiad. A'r rhain, er gwaethaf eu hamheuaeth barhaus, sy'n cael eu hanfon gan Iesu i fod yn dystion y newyddion da: ewch i gyhoeddi'r Efengyl i'r byd i gyd.

Rydyn ni yma nawr, yn credu nawr, yn dilyn Crist nawr oherwydd, yn y pen draw ac er gwaethaf yr holl dystiolaeth a disgwyliadau, roeddent yn credu; aethant a chyhoeddi. Mae'n bosib mai nonsens yw hyn i feddyliau rhesymol, ond dyma'r neges o obaith oedd yn trawsnewid y byd. Ac rydym yn cael ein galw i ddilyn eu traed: gafael ar y neges ffôl hon ar y nonsens hwn a dod yn ffyliaid, er mwyn Crist; i gyhoeddi a byw yr hyn sy'n ymddangos yn neges amhosibl o obaith mewn byd anobeithiol.

Yn 2013, roedd gan y cylchgrawn *Green Christian* erthygl dan y teitl 'Send in the clowns'. Mae'n sôn am glown yn y termau hyn:

> 'Y mae clowniau yn fwy o ffyliaid ar ymylon pethau, pobl sy'n barod i fod yn ddigon o glown i geisio'r deyrnas heb ddisgwyl am unrhyw wobr na bendith ... Mae proffwydi a chlowniau yn barod i fod yn fregus, yn barod i fod yn agored i'w gwatwar trwy weithredu fel gweision mewn byd sy'n casáu gwendid, diffyg uchelgais a gwahaniaeth ... Dim ond pan fyddwn ni'n dysgu bod yn glown (yn ffŵl) er mwyn Crist ... y bydd y gymuned Gristnogol sydd wedi ei chlwyfo, sy'n gwaedu, yn medru tywallt iachâd a gobaith newydd mewn oes o anobaith dinistriol.' (Chris Walton a Ross Ashley)

Heddiw, rydyn ni'n cael ein herio eto i fod yn ffyliaid er mwyn Crist, i gyhoeddi trwy ein geiriau a'n bywydau, trwy ein tosturi a'n gweithredu, fod y cariad a groeshoeliwyd ar y groes yn dal i fod yn bŵer sy'n rhannu dyfnder dioddefaint dynoliaeth a byd dioddefus. Heddiw, rydym yn cael ein herio i fyw allan y gobaith sy'n ymddangos yn anhygoel mewn byd o wrthdaro, trais, anghyfiawnder a gormes, y gellir adnewyddu a thrawsnewid ac adfer, oherwydd mae Duw yn gweithio yn ein byd ni o hyd yn yr Iesu a gododd, yn ein defnyddio fel ei bartneriaid.

Mewn pregeth ar Sul y Pasg, 1957, dywedodd Martin Luther King Jnr mai 'cariad yw'r grym mwyaf pwerus yn y bydysawd'. 'Mae'r cariad hwn,' meddai, 'yn cynnwys risg a thyfiant. Cariad sy'n trechu llwfrdra. Mae'n cryfhau'r enaid ymysg tywyllwch yr awr. Mae'n ein galw ni i garu a thystio i wyrth yr atgyfodiad gerbron y pwerau sydd, ni waeth beth yw'r canlyniadau.'

Efallai y bydd y cwestiynau'n dal i fod yno; efallai y bydd yr amheuon yn dal i'n poeni. Weithiau byddwn yn tybied a yw hyn i gyd yn nonsens. Ond heddiw mae'n ddiwrnod i afael eto yn llaw Duw. Wynebwn y dyfodol gyda gwroldeb a dewrder trwy'r Crist sydd wedi'i groeshoelio a'i gyfodi. Cerddwn i'r dyfodol mewn cariad a gobaith gan wybod yn y diwedd: 'Bydd popeth yn dda, bydd popeth yn dda, bydd pob peth yn dda'. Neu, yn y geiriau sydd wedi ysbrydoli cenedlaethau o gaethweision a'u holynwyr hyd heddiw: 'We SHALL overcome, we SHALL overcome, we SHALL overcome some day'.

Yng ngeiriau Brian Wren:

> Grist, godaist yn ein t'wyllwch,
> a'n llygaid tua'r dydd,
> cydiwn yn llaw d'addewid,
> nes troi yn weld pob ffydd.

Boed i ni weld, a thrwy weld, credu ac o gredu, byw atgyfodiad y Crist croeshoeliedig.

Noel A. Davies

(*o'r gyfrol* Ambell Gam trwy'r Flwyddyn, *casgliad o bregethau ac emynau ar gyfer cyfnodau o'r flwyddyn Gristnogol, i'w chyhoeddi ym mis Mehefin*)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru